# Dosbarthiad digidol – rhestrau gweithredu

**Enw’r busnes:**

**Dyddiad cwblhau:**

| **Camau gweithredu – cam 1: Paratoi i ddosbarthu'n ddigidol (gweithgareddau)** | **I'w wneud** | **Ar waith** | **Cwblhawyd** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu eich cynhyrchion / profiadau | ☐ | ☐ | ☐ | *Ydyn nhw'n addas i'w dosbarthu ar-lein: ar gyfer archebu, talu, addas ar gyfer teithwyr annibynnol (FITs)?*<br>*Ydych chi'n gwybod eich oriau agor / argaeledd?* |
| Adolygu eich prisiau | ☐ | ☐ | ☐ | *Ydych chi’n gwneud digon o elw i gynnig comisiwn?* |
| Nodi'ch USPs ac ysgrifennu disgrifiadau ar gyfer eich cynhyrchion:<br>• Cyflwyniad cryno<br>• Disgrifiad llawn | ☐ | ☐ | ☐ | *Beth sy'n gwneud i bobl fod eisiau archebu eich cynnyrch?*<br>*Ystyried gofyn i gysylltiadau masnach neu gwsmeriaid eraill am adborth.* |
| Ffynhonnell delweddau a fideos | ☐ | ☐ | ☐ | *Adolygu’r delweddau a’r fideos sy'n bodoli'n barod.*<br>*Trefnu mwy o ddelweddau a fideos os oes angen.* |
| Crynhoi gwybodaeth weithredol ar gyfer eich rhestriad | ☐ | ☐ | ☐ | *Gan gynnwys hyd, iaith, hygyrchedd, man cyfarfod / cyfeiriad ac ati.* |
| Adolygu'ch amodau a thelerau | ☐ | ☐ | ☐ | *Adolygu’r polisi canslo, dyddiadau cau ar gyfer archebion ac ati.* |
| Ysgrifennu 3-5 pwynt bwled o "Uchafbwyntiau” | ☐ | ☐ | ☐ | *Crynhoi'r profiad a'r USPs ar ffurf rhestr o bwyntiau bwled.* |
| Ysgrifennu rhestr o'r hyn sydd wedi'i gynnwys a heb ei gynnwys (os yw'n berthnasol) | ☐ | ☐ | ☐ | *Er enghraifft: pris mynediad, trafnidiaeth, rhoddion ac ati.* |
| Rhestru unrhyw wybodaeth bwysig arall | ☐ | ☐ | ☐ | *Er enghraifft: A oes terfyn oedran? Oes angen i westeion lofnodi hepgoriad?*<br>*Unrhyw beth arall sydd angen iddyn nhw ei wybod neu ddod gyda nhw?*<br>*Ydy'r cynnyrch yn addas ar gyfer pobl benodol (plant, defnyddwyr cadair olwyn ac ati)?* |
| Os oes gennych COBS – gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth ar eich system archebu yn gywir ac yn gyfredol, fel argaeledd a chyfraddau | ☐ | ☐ | ☐ | |

| Camau gweithredu – cam 1: Paratoi i ddosbarthu'n ddigidol (llety) | I'w wneud | Ar waith | Cwblhawyd | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu eich cynhyrchion | ☐ | ☐ | ☐ | *Ydych chi'n gwybod eich tymor / argaeledd?*<br>*Beth yw eich amodau a thelerau?* |
| Adolygu eich prisiau | ☐ | ☐ | ☐ | *Ydych chi'n gwneud digon o elw i gynnig comisiwn?* |
| Nodi'ch USPs ac ysgrifennu disgrifiadau ar gyfer eich cynhyrchion:<br>• Cyflwyniad cryno<br>• Disgrifiad llawn | ☐ | ☐ | ☐ | *Beth sy'n gwneud i bobl fod eisiau aros gyda chi? Ystyried gofyn i gysylltiadau masnach neu gwsmeriaid eraill am adborth.* |
| Ffynhonnell delweddau a fideos | ☐ | ☐ | ☐ | *Adolygu'r delweddau a'r fideos sy'n bodoli'n barod.*<br>*Trefnu mwy o ddelweddau a fideos os oes angen.* |
| Crynhoi gwybodaeth weithredol ar gyfer eich rhestriad | ☐ | ☐ | ☐ | *Gan gynnwys parcio, wi-fi, brecwast, amser cyrraedd ac amser gadael, anifeiliaid anwes ac ati* |
| Adolygu'ch amodau a thelerau | ☐ | ☐ | ☐ | *Adolygu'r polisi canslo, dyddiad cau ar gyfer archebion, polisïau plant ac ati.* |
| Rhestru unrhyw wybodaeth bwysig arall | ☐ | ☐ | ☐ | *Unrhyw beth sydd angen iddyn nhw ei wybod cyn aros?*<br>*Ydy'r cynnyrch yn addas ar gyfer pobl benodol (plant, defnyddwyr cadair olwyn ac ati)?* |
| Os oes gennych reolwr PMS neu sianel – gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth ar eich system yn gywir ac yn gyfredol, fel argaeledd a chyfraddau | ☐ | ☐ | ☐ | |

| Camau gweithredu – cam 2: Cael COBS (system archebu ar-lein gysylltiedig) | I'w wneud | Ar waith | Cwblhawyd | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| Os nad oes gennych COBS, adolygu manteision cael un | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Adolygu pa swyddogaethau sy'n bwysig i chi, a gwneud rhestr o flaenoriaethau | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Ystyried y gost – ai tanysgrifiad misol neu ffi fesul archeb fyddai orau i chi? | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Adolygu COBS gwahanol, a threfnu 'demos' gyda'r rhai sy'n cynnig y swyddogaethau sydd eu hangen arnoch | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Cofrestru gyda COBS | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Sefydlu eich cynhyrchion a'ch prisiau ar COBS | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Cysylltu eich COBS â'ch gwefan, trwy ychwanegu botwm "archebu nawr" i'ch gwefan | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Os ydych chi eisoes wedi'ch sefydlu ar asiant teithio ar-lein (OTAs), cysylltwch eich rhestriad OTA â'r COBS | ☐ | ☐ | ☐ | |

| Camau gweithredu – cam 3: Dechrau gwerthu ar asiantau teithio ar-lein | I'w wneud | Ar waith | Cwblhawyd | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| Nodi'r OTAs a'r platfformau sy'n addas i'ch cynhyrchion chi | ☐ | ☐ | ☐ | *Er enghraifft: pa rai yw eich marchnadoedd targed? Faint o gomisiwn allwch chi ei dalu? A oes unrhyw OTAs arbenigol sy'n gwerthu eich math o brofiad / cynnyrch?* |
| Cofrestru gyda'r OTAs a'r platfformau ar-lein o'ch dewis | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Llenwi gwybodaeth proffil eich cwmni | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Ychwanegu gwybodaeth a delweddau eich cynnyrch | ☐ | ☐ | ☐ | *Gweler rhestr cam gweithredu 1 uchod* |
| Ystyried datblygu cynhyrchion penodol i OTA | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Cysylltu'r rhestr OTA â'ch COBS (neu ddiweddaru â llaw os nad oes gennych COBS) | ☐ | ☐ | ☐ | |

| Camau gweithredu – cam 4: Dechrau gwerthu ar TXGB | I'w wneud | Ar waith | Cwblhawyd | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cofrestru gyda TXGB, a chwblhau eich proffil | ☐ | ☐ | ☐ | *Ewch i wefan TXGB a chliciwch ar "Get started"* |
| Os oes gennych COBS, ei gysylltu â TXGB | ☐ | ☐ | ☐ | *Bydd TXGB yn eich helpu i gysylltu'ch COBS â TXGB* |
| Os nad oes gennych COBS, ystyriwch ddefnyddio TxLoad | ☐ | ☐ | ☐ | *Gall TXGB eich helpu i sefydlu ar TxLoad* |
| Dewis y sianeli dosbarthu yr hoffech weithio gyda nhw | ☐ | ☐ | ☐ | *Gweler rhestr cam gweithredu 3 uchod – adolygu eu marchnadoedd targed, lefel y comisiwn, amodau a thelerau ac ati.* |

| **Camau gweithredu – cam 5: Gwella pa mor weladwy ydych chi ar-lein** | **I'w wneud** | **Ar waith** | **Cwblhawyd** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|
| Cysylltu eich COBS â'ch gwefan, trwy ychwanegu botwm "archebu nawr" i'ch gwefan | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Gwirio UX (profiad defnyddiwr) eich gwefan a thrwsio unrhyw broblemau | ☐ | ☐ | ☐ | *Ystyried defnyddio offer fel: https://pagespeed.web.dev/* |
| Creu strategaeth cyfryngau cymdeithasol | ☐ | ☐ | ☐ | *Ystyried cyflwyno cynllun misol ar gyfer eich negeseuon/postiadau.* |
| Adolygu platfformau cyfryngau cymdeithasol gwahanol, a chofrestru gydag unrhyw un sy'n addas i'ch cynulleidfa | ☐ | ☐ | ☐ | *Pa blatfformau cyfryngau cymdeithasol ddylech chi fod yn postio arnyn nhw – ystyriwch eich cynulleidfa (grwpiau oedran, diddordebau, cenedligrwydd ac ati).* |
| Hawlio proffiliau eich cwmni ar:<br>• Google<br>• TripAdvisor | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Gwirio eich rhestriad ar wefannau adolygu a diweddaru os oes angen | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Ychwanegu gwybodaeth a delweddau / fideos i wefannau adolygu | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Cofrestru i gael negeseuon e-bost yn eich hysbysu am adolygiadau gan wefannau adolygu | ☐ | ☐ | ☐ | |